



# NODION SEION

MEDI 2016

## Gair gan y Gweinidog

Mae'r profiad o adnabod Crist yn rhagori ar bob profiad arall. Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng gwybodaeth am Iesu ac adnabyddiaeth ohono. Rhaid clywed am Iesu, ond nid yw hynny'n ddigon. Rhaid credu, a dod i adnabod y Person Iesu drosom ein hunain, gan brofi o gyfaredd ei bresenoldeb a'i fendith. Man cychwyn ein hadnabyddiaeth ohono yw troed y Groes wrth i ni ymddiried yn yr hyn wnaeth ef drosom ar y Groes unig honno.

*I'r pennaf droseddwr yr Iesu a rydd lawn bardwn pan ddaw at ei Arglwydd mewn ffydd.* (E.H. Griffiths)

Ân dwylo'n weigion ger ei fron wrth droed y Groes cawn sicrwydd maddeuant a dechreuwn ddot i'w adnabod yn ei gariad a'i ras. Mae perthynas yn cael ei hadeiladu rhyngom.

Sawl un ohonom sydd â pherthynas go iawn â'r Arglwydd Iesu Grist? Bu Charles Templeton yn gweinidogaethu mewn eglwys fawr yn Toronto yn y 1950au, a chynorthwyodd i sefydlu *Youth for Christ*. Ei gyfaill a'i gydweithiwr oedd Billy Graham, ond yn y 60au cefnodd Charles Templeton ar y weinidogaeth – nid oherwydd rhyw fethiant moesol ond am iddo wadu ei ffydd. Ni allasai ddeall sut y medrai Duw ganiatáu dioddefaint yn y byd ac arweiniodd y dilema yma ef at anffyddiaeth. Bu'n olygydd dau o bapurau dyddiol mwyaf Canada a bu iddo sefyll etholiad i fod yn brif weinidog. Ac yntau yn ei 80au bu Lee Strobel yn ei gyfweled gan ei holi am ei anffyddiaeth. Soniodd Charles Templeton am y rhesymau pam na allasai dderbyn Duw yr Hen Destament. Yna gofynnodd Lee Strobel iddo ef beth oedd e'n ei feddwl o'r Arglwydd Iesu Grist. Y foment honno gwyrdd ei ben ac wylodd yn hidl. Trwy ei dagrau dywedodd, *"I miss Him"* - "Rwy'n gweld ei eisiau ef."

Cafodd ei hen ffrind Billy Graham gyfweiliad gan Joe Stowell yn ddiweddar iawn. Gofynnodd i Billy Graham beth oedd ef wedi ei drysori fwyaf ar hyd blynyddoedd ei weinidogaeth. Buasech chi wedi disgwyl iddo sôn am y dylanwad a gafodd ar arlywyddion America dros bum degawd neu'r fraint a ddaeth i'w ran o gael pregethu'r efengyl i dyrfaoedd enfawr ledled y byd. Atebodd Billy Graham gyda phendantwrwydd tawel mai'r hyn roedd wedi ei drysori yn fwy na dim oedd ei berthynas â'r Arglwydd Iesu Grist.

*"To be able to talk with Him, to hear from Him, and to have His guidance and presence in my life has been my greatest joy."*

Ystyriwch y peth. Dewisodd un dyn aros gyda Iesu ac yn ei henaint profa mai'r trysor a'r llawenydd mwyaf sydd yn eiddo iddo yw'r berthynas mae ef wedi ei meithrin â'r Arglwydd Iesu Grist ar hyd ei fywyd. Mae'r llall, wedi iddo gefnu ar Iesu, er iddo fyw bywyd amlwg yn y byd gwleidyddol a newyddiadurol, yn ymdeimlo'n ddwfn â'r golled am na fu iddo yn wyneb y cwestiynau anodd oedd ganddo ddyfalbarhau i feithrin perthynas â'r Crist byw.

Rhaid tyfu yn ein hadnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu Grist. Nid profiad statig, marw, yw adnabod, ond profiad byw, cynyddol. Sonia Ann Griffiths am "dreiddio i'r adnabyddiaeth o'r unig wir a bywiol Dduw" (193) fel profiad cynyddol nad oes derfyn arno. Mewn man arall fe ddywed, Dwfr i nofio heb fynd drwyddo..." ac "heb na diwedd byth na glan". Dechrau ei adnabod ef yr ydym ni. Yn yr Arglwydd Iesu Grist mae yna ddirgelion dwyfol a dwfn. Cofiw, fel na allwn adnabod ein gilydd yn well ond wrth fyw gyda'n gilydd, ni allwn adnabod yr Arglwydd Iesu Grist yn well chwaith ond wrth fyw gydag ef ac aros yn ei

gwmni. Cyfryngau'r aros yn ei gwmni i ni yw myfyrdod a gweddi, darllen yr Ysgrythurau, oedfa a Dosbarth Beiblaidd. Hebddynt nid oes twf yn bosibl. Drwyddynt cawn fyw yn ei bresenoldeb a'i adnabod yn well ac yn fwy, a phrofi grym ei ras. Mae credu yn yr Arglwydd Iesu Grist a derbyn yn edifeiriol yr hyn a wnaeth drosom ar y groes i'n cymodi â Duw yn peri i ni wybod bod gennym faddeuant am ein pechodau a bod Duw yn ein caru. Mae troi at yr Arglwydd Iesu Grist gan siarad ag ef a gadael ein beichiau gydag ef, yn wyneb stormydd bywyd, yn dod â thangnefedd i'n calonau. Mae dod i adnabod yr Arglwydd Iesu Grist yn well yn creu newyn a syched ynom am dyfu'n debyg iddo.

*O na bawn fel yr Iesu  
yn llawn awyddfryd pur  
i helpu plant gofidiau  
ac esmwytháu eu cur;*

*O na bawn fel yr Iesu  
yn maddau pob rhyw fai,  
'roedd cariad yn ymarllwys  
o'i galon e'n ddi drai.* (Eleazar Roberts)

Onid dynion a merched sy'n ymdebygu i'r Arglwydd Iesu Grist yw angen mawr y byd, dynion a merched y mae ef yn Arglwydd yn eu calonau ac yn cael eu defnyddio ganddo i ledaenu terfynau ei Deyrnas?

Boed i ni dyfu gyda'n gilydd yn ein hadnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu Grist gan ddwyn clod iddo yn yr eglwys ac allan yn y byd.

-----  
Croeso cynnes iawn i bawb a ddaw atom i addoli a chroeso cynnes i'r myfyrwyr ar ddechrau tymor newydd – mae'n hyfryd cael eich cwmni.

Andrew Lenny

## Oedfa Deuluol



Ar fore Sul yn dilyn y barbeciw cawsom Oedfa Deuluol gyda'r plant a'r ieuencid ar eu gorau yn ein cynorthwyo i addoli. Cawsom gyflwyniad gwahanol o Stori'r Ffŵl Cyfoethog cyn i'r gweinidog rannu neges gan dynnu ein sylw at eiriau Martin Luther, "Nid yw neb yn gwir gredu onid yw ei ffydd yn esgor ar weithredoedd cariad". Cawsom goffi a chacennau yn y festri yn dilyn yr oedfa a bu'n rhaid cael ail fap o Lesotho i dderbyn ein rhoddion i'r apêl. Diolch i bawb a gyfrannodd yn hael. Cyfanswm y derbyniadau i Apêl Lesotho yw £605. Diolch i'r plant a'r ieuencid am ein hysgogi i ymateb i Apêl Lesotho.

Daeth athrawes ifanc o Lanafan o'r enw Catrin Hughes i'r Oedfa Deuluol ar fore Sul, 4 Medi i dderbyn ein cyfraniad i'r apêl. Bu Catrin yn athrawes yn Lesotho am gyfnod o bum mis eleni a rhannodd ychydig o'i hanes â ni gan egluro pa mor fawr yw'r angen ac fel mae plant ac oedolion yn dioddef yn enbyd o brinder bwyd.

## Barbeciw

Ar brynhawn Sadwrn, 2 Gorffennaf cawsom fwynhau barbeciw ar wahoddiad aelodau'r Ysgol Sul. Cawsom wledd flasus wedi ei pharatoi gan Arwel, Mererid ac Eiry. Diolchwn yn fawr iawn iddynt ac i'r rhai fu'n cynorthwyo ac yn cefnogi. Cafodd y plant amser wrth eu bodd yn y gemau amrywiol o dan arweiniad Rosemary ac Andrew. Roedd yr awyrgylch yn drydanol. Cafodd pawb oedd yn bresennol gyfle i guddio map o Lesotho â rhoddion ariannol i gynorthwyo'r miloedd ar filoedd yn y wlad sy'n wynebu newyn a thlodi o ganlyniad i'r sychder mawr sydd yno.

## **Aelod a hunodd**

Mrs Morwena Evans (25:6:16)

Mrs Catherine Parry (30:6:16)

“Os byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw, ac os marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. P'run bynnag ai byw ai marw yr ydym, eiddo'r Arglwydd ydym” (Rhufeiniaid 14:8).

## **Cydymdeimlwn ag aelodau a gollodd anwyliaid**

Dr Endaf Edwards (modryb), Y Parchedig Irfon Evans (cefnder), Yr Athro Hazel Walford Davies (mam), Athro Walford Davies (mam yng nghyfraith), y Parchedig Maldwyn Pryse (modryb)

## **Yn yr ysbyty neu newydd dderbyn triniaeth**

Mrs Sylvia Jones, Mrs Eileen Williams, Mrs Gwyneth Jones, Tomos Garrero, Mrs Eirwen Lewis, Mrs Sara Gibson, Mr Emyr James, Mrs Delyth Fletcher, Mrs Gwenllian Meredith, Miss Ann Thomas.

## **Ymddiriedolwyr Newydd**

Gwerthfawrogwn yn fawr iawn baroddrwydd Dr Endaf Edwards a Mr Leon Gibson i ymgymryd â'r cyfrifoldeb o fod yn ymddiriedolwyr. Mae Mr Gerallt Davies wedi bod yn gadeirydd yr ymddiriedolwyr am ddeng mlynedd. Diolchwn yn fawr iddo am ei wasanaeth a gwerthfawrogwn baroddrwydd Dr Richard Edwards i ymgymryd â'r cyfrifoldeb o fod yn gadeirydd o hyn ymlaen. Mae gan yr eglwys naw ymddiriedolwr yn awr ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu gwaith.

## **Trefn Gwasanaethau'r Cymun**

2 Hydref (hwyr); 6 Tachwedd (hwyr);

4 Rhagfyr (bore).

## **Pregethwyr**

**30 Hydref** Mr Arfon Jones

**27 Tachwedd** Mr Ffred Ffransis

## **Cyfeiriad Newydd**

Mrs Nan Rees a Miss Gwenllian Rees, 26, Melrose Gardens, Penylan Caerdydd CF23 9BA

## **Llongyfarchiadau**

i Efa Lois Thomas ar ennill ei gradd mewn pensaernïaeth ym Mhrifysgol Lerpwl ac ar ennill Ysgoloriaeth Pensaernïaeth yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni.

i Fflur Edwards ar ennill Tystysgrif Addysg i Raddedigion ym Mhrifysgol Bangor

i Mrs Ann Griffiths ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed

i Mr John Ifor Jones ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed

i Sara a Rhodri Gibson ar enedigaeth Siôn, brawd bach i Mari a Gwen ac ŵyr i Leon ac Eirian Gibson.

i Lowri a Carwyn Evans ar enedigaeth Hedydd Eidda, chwaer fach i Bleddyn Llynwerth ac wyres gyntaf Malcolm a Nona Davies.

i Dion a Meinir Hughes ar enedigaeth Elin Emrys, wyres gyntaf i Elenid Hughes

i Mathew a Sacha Evans ar enedigaeth Albert, brawd bach i Alfie Rhys ac ŵyr i Geraint a Kath Evans. Croeso nôl i Mathew a'i deulu i Aberystwyth

i Mrs Alison Jenkins ar enedigaeth ei hwyres, Rhian Angharad, sydd hefyd yn orwyres i Mrs Maud Farrow.

i Meleri Wyn James ar gyhoeddi ei llyfr diweddaraf i blant: Na, Nel! Aaaa!

i Dana Edwards ar gyhoeddi ei nofel Gymraeg gyntaf: Pam?

i Rona Fisher Davies ar enedigaeth Beatrix, ei gorwyres ac wyres gyntaf i Rhian a Josh Cooper.

## **Dymuno'n dda**

Dymunwn longyfarch ieuenticid yr eglwys ar eu llwyddiant mewn arholiadau coleg ac ysgol. Dymunwn yn dda i'r plant sy'n cychwyn yn Ysgol Penweddig.

## Oedfa Gofiadwy Arall

Roedd yr Oedfa Gymun ar fore Sul, 31 Gorffennaf, o dan arweiniad y gweinidog. Estynnwyd gwahoddiad i'r Parchedig Irfon Evans, sy'n un o'n haelodau ffyddlon, i'r pulpod i bregethu'r Gair. Cafodd ei ordeinio yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist yn eglwys Capel Isaac ym 1952 ac mae wedi pregethu'r efengyl yn ffyddlon ac yn ddiwyll ar hyd y blynyddoedd. Nid yw'n dymuno derbyn cyhoeddiadau mwyach ac yntau yn 90 oed.

Cawsom bregeth rymus ganddo o dan eneniad yr Ysbryd Glân yn seiliedig ar Salm 8. Tywysodd ni i ymwybyddiaeth o ryfeddod mawredd Duw a'i ras tuag at ddyinion a merched yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Wrth ddiolch i'r Parchedig Irfon Evans am ei neges ac wrth ddymuno bendith y nef arno i'r dyfodol cyflwynodd y gweinidog gyfrol iddo o fyfyrddodau o weithiau John Newton.



## I'ch Dyddiadur...

### Dydd Sadwrn, 1 Hydref

Dydd Baneri Cymorth Cristnogol. Bydd y blychau casglu ar gael o festri Seion rhwng 9.30 a 3.30. Gofynnir am wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r casglu ar hyd strydoedd y dref.

### Yr Ŵyl Ddiolchgarwch

#### Dydd Sul, 2 Hydref

**10.00** Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul. "Y Synhwyrâu" yw thema'r oedfa a'n bwriad yw addurno'r ffenestri yn ôl y thema. Mae croeso i bawb gynorthwyo a sicrhau bod yna neges ar bob ffenest yn amlygiad o'n diolchgarwch i Dduw am ei roddion a'i ras.

Derbynnir rhoddion dros yr Ŵyl Ddiolchgarwch ar gyfer y Banc Bwyd ym Mhenparcau. Byddwn yn gosod bocsys yn y cyntedd a'r festri i dderbyn ein rhoddion. Yn ystod yr oedfa gwahoddir y plant i ddod ymlaen â bwyd (tuniau, bwyd sych, bisgedi) yn Offrwm Diolchgarwch. Bydd blychau casglu hefyd yn y cyntedd ac fe ddefnyddir yr arian i brynu bwyd i'r Banc Bwyd.

**6.00** Oedfa'r Hwyr. Gweinyddir Ordinhad Swper yr Arglwydd

### Dydd Llun, 3 Hydref

Cinio Bara a Chaws Cymorth Cristnogol ym Methel

### Dydd Mercher, 5 Hydref

**2.30** Cynhelir Oedfa Gymun fer yn y festri fel rhan o'r Ŵyl Ddiolchgarwch o dan arweiniad y Gweinidog gyda thé Diolchgarwch yn dilyn.

### Dydd Mercher, 12 Hydref

**5.30** Cyfarfod Blynyddol Adran Cymorth Cristnogol Aberystwyth yng Nghapel Sant Paul. Sgwrs gan y Parchg. Tom Dafis am y daith gerdded o Fethlehem, ger Llangadog, i'r Aifft ger Llanelwy i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol.

### Dydd Sadwrn, 15 Hydref

**10.00 – 12.00** Bore Coffi Papur Sain

### Dydd Sadwrn, 22 Hydref

**7.00** Swper a Chân yng Nghapel Sant Paul er budd Cymorth Cristnogol.